

Y Cyflwyniad Llafar



Y Dasg



Y Cyflwyniad Llafar

Rhaid i bob ymgeisydd wneud cyflwyniad llafar a fydd yn para 7-8 munud yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar ei faes/ei maes astudiaeth neu y gweithle.

Dylai'r cyflwyniad fod yn addas i gynulleidfa o bobl nad ydynt yn arbenigwyr yn y maes hwnnw; hynny yw, dylid sicrhau bod y cyflwyniad yn ddealladwy i rywun sy'n anghyfarwydd â'r pwnc dan sylw.

Canllawiau

- Bydd disgwyl ichi baratoi cyflwyniad (tua 8 sleid PowerPoint).
- Peidwch a chynnyws gormod o destun. Ni ddylech gynnwys unrhyw ddeunydd Saesneg o gwbl yn eich sleidiau.
- Ar ddechrau'r cyflwyniad, dylech chi ddweud eich enw, eich rhif aelodaeth a'ch dyddiad geni.
- Cofiwch ymarfer eich cyflwyniad yn drwyadl er mwyn sicrhau eich bod yn cadw at y gofynion amser.
- Cofiwch ymarfer gydag offer *Microsoft Teams* o flaen llaw. e.e Bydd angen i chi rannu sgrîn wrth i chi gyflwyno a llwytho eich cyflwyniad.
- Ar ddiwedd y cyflwyniad, bydd 7-8 munud i'r ymgeisydd ymateb i gwestiynau gan arholwr CBAC a'r tiwtor. Bydd y cwestiynau'n ymwneud ag unrhyw bwyntiau diddorol a gododd yn ystod y cyflwyniad.



Dewiswch destun addas.




Dewiswch destun sydd o ddiddordeb i chi. Bydd paratoi ac ymchwilio'n fwy pleserus os oes diddordeb gennych yn y pwnc. Peidiwch â dewis testun nad ydych yn ei ddeall yn iawn neu destun nad ydych chi'n gwybod digon amdano.

Cofiwch y bydd yr arholwr yn eich holi ar ddiwedd y cyflwyniad. Gwnewch yn siwr fod digon o wybodaeth gennych i ateb y cwestiynau hyn yn llawn. Bydd testun addas yn rhoi cyfle i chi:

- ymchwilio i bwnc
- dweud rhywbeth diddorol a fydd yn cadw sylw'r gynulleidfa
- paratoi delweddau deniadol a diddorol, e.e. pwerbwynt, eitem ar fwrdd gwyn a fydd yn help i'r gynulleidfa ddeall a chofio'ch pwyntiau.

Meini Prawf



Bydd y meini prawf canlynol yn cael eu hystyried er mwyn dyfarnu marc ar gyfer yr elfen hon:

- Dull cyflwyno (20 marc)
- Ystod cystrawennau a geirfa (20 marc)
- Cynnwys a threfn y cyflwyniad (20 marc)
- Ymateb i gwestiynau (20 marc)
- Cywirdeb iaith (10 marc)
- Deunydd Gweledol. (10 marc)

Cyfanswm - 100

**Gweler copi llawn o'r cynllun marcio yn yr atodiadau.*

Pryd?



Bydd eich tiwtor iaith yn cysylltu gyda chi i drefnu amser cyfleus ar gyfer eich cyflwyniad llafar. Bydd y cyfnos asesu Chwefror a chanol mis Mawrth.

Unwaith y byddwch chi wedi cadarnhau y dyddiad mwyaf cyfleus i chi yna bydd gwahoddiad Teams yn cael ei anfon atoch chi gydag amser penodol ar gyfer yr asesiad.



Cymorth Defnyddiol

[https://sway.office.com/PDHDkjntB12CtUF?loc=s
wsp](https://sway.office.com/PDHDkjntB12CtUF?loc=s
wsp)

I Agor...

- Y farn gyffredinol heddiw yw bod...
- Wrth ystyried y pwnc hwn...
- Un o'r agweddau pwysicaf ar y mater hwn yw...
- Hoffwn gyflwyno gwybodaeth am ...
- Y pwnc sydd gen i o dan sylw heddiw yw ...
- Pwnc sydd wedi fy niddori ers tro yw ...
- Ydych chi wedi clywed am ... ?
- Y pwynt cyntaf i'w drafod yw...

Brawddegau Defnyddiol.

- Yn gyntaf, yn ail, yn drydydd, yn olaf...
- Yn y lle cyntaf...
- Awgryma hyn X ond mae X fodd bynnag yn awgrymu mai...
- Wedyn rhaid ystyried...
- Mae o leiaf dri phwynt pwysig i'w hystyried yma...

Brawddegau defnyddiol.

- Yr agwedd gyntaf carwn drafod yw ...
- Hoffwn ddechrau trwy drafod
- Yr ail agwedd ar y pwnc yw ...
- Agwedd arall ar y pwnc yma yw ...
- Thema arall sy'n deillio o hyn yw ...
- Yn ail, carwn drafod yr agwedd ... o'r pwnc
- Ffactor arall yw ...
- Carwn sôn nesaf am ...
- Agwedd arall ar y pwnc yma yw ...
- Thema arall sy'n deillio o hyn yw ...
- Tybed ydych chi wedi clywed am?
- Carwn sôn nesaf am ...

Mewn geiriau eraill...

- Hynny yw,
- Yn hytrach
- O'i roi yn syml
- O'i aralleirio

I Gloi...

- I grynhoi...
- Down i'r casgliad bod...
- Wrth dynnu tua'r terfyn..
- I gloi fy nghyflwyniad ...
- Felly, i grynhoi ...
- Hoffwn orffen y cyflwyniad trwy sôn am ...
- Yn amlwg felly, ...
- Diolch i chi am eich gwrandawriad ...
- Mae croeso i chi ofyn cwestiynau ar y pwnc yma ...
- Rydw i'n hollol fodlon derbyn eich cwestiynau ar fy nghyflwyniad ...

Adnoddau a chymorth ychwanegol.



- Tudalen yn cynnwys canllawiau a chymorth pellach
- Grid asesu y Cyflwyniad Llafar
- Ffilmiau byr CCC yn rhoi cyngor pellach wrth baratoi a chyflwyniadau enghreifftiol ar wefan CCC (dolen ar Moodle)
- Eich tiwtor iaith. Cofiwch gysylltu os hoffech chi sgwrs i drafod eich cyflwyniad neu gymorth pellach wrth baratoi.

